

Panel Adolygu Arbenigol ar Ddigartrefedd

Briff ar gyfer Cyfarfod 8: Cyfiawnder Troseddol a Digartrefedd

Ebrill 2023

Bwriad y briff hwn yw rhoi cefndir ac amlinelliad o'r cyd-destun ar gyfer trafodaeth y Panel Adolygu Arbenigol ar gyfiawnder troseddol a digartrefedd.

Dylid darllen y briff hwn ar y cyd â phapur Arbenigwyr drwy Brofiad Cymorth Cymru a phapur Crisis sy'n crynhoi adborth a gafwyd ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y maes hwn.

Mae'r papur hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Cyflwyniad
2. Ystadegau
3. Y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfiawnder troseddol a digartrefedd yn y DU
 - a. Cymru
 - b. Lloegr
 - c. Yr Alban
 - d. Y Ddeddf Crwydraeth
4. Cyd-destun polisi yng Nghymru
5. Rhwystrau ac atebion
 - a. Troseddoli digartrefedd
 - b. Casglu data ar gyfiawnder troseddol a digartrefedd yng Nghymru
 - c. Pwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl
 - d. Cymorth tai a chynllunio yn y carchar
 - e. Anaddasrwydd llety dros dro
 - f. Mynediad at gymorth
 - g. Cael tenantiaethau a'u cadw
 - h. Rhwystrau i grwpiau penodol: menywod, pobl ifanc, defnyddwyr sylweddau
 - i. Ymyriadau Cyfnod Allweddol
6. Dulliau gweithredu mewn gwledydd eraill
7. Cwestiynau i arwain trafodaeth

1. Cyflwyniad

Mae'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn faes nad yw wedi'i ddatganoli. Oherwydd hyn, mae cyfiawnder troseddol yng Nghymru, gan gynnwys cyfrifoldeb am yr heddlu, llysoedd, carchardai a phrawf yng Nghymru yn nwylo Senedd a Llywodraeth y DU. Er hyn, mae gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru nifer o bwerau sy'n gorgyffwrdd â gweithredu'r system gyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau diogelu, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, addysg a hyfforddiant sgiliau sy'n gysylltiedig ag adsefydlu troseddwr, a darparu tai i droseddwr sy'n cael eu hailsefydlu yn y gymuned.¹

Dim ond lleiafrif o bobl ddigartref fydd yn ymwneud â throeddu, ond mae treulio amser yn y carchar yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd a gall prinder llety sefydlog hefyd gynyddu'r risg o droeddu/aildroeddu. Gall hyn arwain at gylch negyddol sy'n ailadrodd ei hun, ag achosion o ddigartrefedd a charcharu yn digwydd dro ar ôl tro.

Gall unigolion sy'n gadael y carchar ganfod eu hunain yn ddigartref yn rhwydd iawn am resymau amrywiol. Gallai'r rhain gynnwys perthnasoedd blaenorol yn chwalu a diffyg rhwydwaith cefnogi, anawsterau wrth geisio cael llety oherwydd polisiâu penodol, cyfyngiadau o ran ble y gellir eu lleoli oherwydd natur y troseddau a gyflawnwyd neu ofynion prawf, anawsterau ariannol a dim gwaith ar ôl gadael y carchar. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd gan y rhai sy'n gadael y carchar anghenion cymorth penodol, o ran sicrhau neu gadw tenantiaeth, oherwydd trawma yn y gorffennol neu fel rhan o'r broses o symud ymlaen â'u bywydau ar ôl bod yn y carchar.

Er bod dod o hyd i lety a chadw tenantiaeth yn gallu bod yn broblem i unrhyw un sy'n gadael y carchar, mae tystiolaeth wedi amlygu pedwar grŵp sy'n wynebu rhwystrau penodol²: carcharorion ar remand a'r rhai sydd â dedfrydau byr iawn,³ menywod,⁴ pobl ifanc,⁵ a'r rhai a oedd yn ddigartref pan aethant i'r carchar.⁶

Mae'r rhai sy'n gadael y carchar yn wynebu mwy o risg o fod yn ddigartref, ond mae'n bwysig nodi hefyd bod digartrefedd ynddo'i hun, ar ffurf cysgu allan, wedi'i droedoli drwy'r Ddeddf Crwydraeth.

2. Ystadegau

Gan nad yw cyfiawnder troseddol yn fater datganoledig yng Nghymru, mae ystadegau ar gyfiawnder troseddol a digartrefedd sy'n ymwneud yn benodol â Chymru yn unig yn brin.

¹ Gweler [Troseddau a Chyfiawnder – Cymunedau Mwy Diogel Cymru](#)

² Dore, E (2015) *Insight: Prison Leavers and Homelessness*, ar-lein: IRISS.

³ Loucks (2007). Gojkovic D, Mills A a Meek R (2012) *Accommodation for ex-offenders: Third sector housing advice and provision*, Southampton: Third Sector Research Centre

⁴ *Commission on Women Offenders (2012) Final report*, Caeredin: Llywodraeth yr Alban

⁵ Glover J a Clewett N (2011) *No fixed abode: The housing struggle for young people leaving custody in England*, Essex: Barnardo's. Gojkovic et al. (2012).

⁶ Williams K, Poyser J a Hopkins K (2012) *Accommodation, homelessness and re-offending of prisoners: Results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) survey*, Ministry of Justice research summary 3/12, Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Yn 2021, adroddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod 15% o'r bobl a oedd yn y carchar yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn ddigartref cyn cael eu rhoi yn y ddalfa⁷ ac mae pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar heb rywle diogel i aros tua 50% yn fwy tebygol o aildroseddu.⁸ Roedd y data hefyd yn dangos bod mwy na hanner y rhai a oedd yn gadael y carchar, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, wedi cael eu rhyddhau heb lety sefydlog (20,191 o bobl allan o 32,941) a bod 3,194 o bobl yng Nghymru a Lloegr wedi eu rhyddhau yn ddigartref.⁹

Yn ôl y Women Reform Trust roedd un o bob tair (36%) o'r menywod a adawodd y carchar yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth wedi gwneud hynny heb lety sefydlog, roedd mwy nag un o bob chwech yn ddigartref ac roedd bron i un o bob 20 yn cysgu allan ar ôl cael eu rhyddhau.¹⁰

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn cyhoeddi canran y rhai sy'n gadael carchar yr ystyrir bod ganddynt lety ar gyfer eu noson gyntaf ar ôl cael eu rhyddhau.¹¹ Yng ngharchardai Cymru, cofnodwyd bod gan y canrannau a ganlyn o'r rhai a oedd yn gadael y carchar lety ar gyfer y noson gyntaf ar ôl cael eu rhyddhau yn ystod 2021-22:

- Carchar Berwyn yn Wrecsam, 91.5%
- Carchar Brynbuga yn Sir Fynwy, 94.2%
- Carchar Prescoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr 94.6%
- Carchar Caerdydd, 77.3%
- Carchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 86%
- Carchar Abertawe, 83.8%

Er nad yw'r ystadegau hyn yn darparu gwybodaeth fanwl am natur y llety hwn, er enghraifft a yw'n llety parhaol ynteu dros dro, neu a oedd y llety am fwy nag un noson, maent yn dangos bod tua 12% o'r rhai a adawodd y carchar yng Nghymru yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau yn ystod y cyfnod hwn.

Er nad yw'n ymwneud yn benodol â Chymru, mae Arolwg Carcharorion blynyddol yr Alban yn darparu data defnyddiol ynglŷn â chyfiawnder troseddol a digartrefedd. Mae ei ganfyddiadau'n awgrymu'n gyson bod tua hanner y carcharorion yn colli eu cartref pan maent yn cael eu rhoi yn y ddalfa. Mae tua un o bob tri yn dweud nad ydynt yn gwybod ble y byddant yn aros pan fyddant yn cael eu rhyddhau.¹²

⁷ Cyflwyniad gan Nacro, [Is the Government's rough sleeping target on track](#), a gyhoeddwyd ar 31 Mai 2022

⁸ Datganiad i'r wasg gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [£70 million to keep prison leavers off the streets and cut crime](#), cyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2021

⁹ Gweler <https://www.swlondoner.co.uk/news/26082021-thousands-of-prisoners-released-homeless-during-pandemic-ministry-of-justice-data-shows>

¹⁰ Women Reform Trust (2021), *Why focus on reducing women's imprisonment?*

¹¹ Gweler [Accommodation on the first night following release - Justice Data](#)

¹² Arolygon i'w gweld yn: [Publications \(sps.gov.uk\)](#)

2. Y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfiawnder troseddol ledled y DU

Mae deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cydnabod bod unigolion sy'n gadael y carchar yn fwy agored i niwed ac yn wynebu mwy o risg o ddigartrefedd.

a. Deddfwriaeth berthnasol yng Nghymru

Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014

Roedd Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 yn disodli pob Ymddiriedolaeth Brawf yng Nghymru a Lloegr ac yn cyflwyno'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn eu lle. Mae un cwmni adsefydlu cymunedol ar gyfer Cymru gyfan.

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn gyfrifol am reoli troseddwyr risg isel i ganolig a chynllunio ar gyfer adsefydlu pob carcharor a fydd yn dychwelyd i Gymru ar ôl cael ei ryddhau. Darperir cymorth adsefydlu i droseddwyr sy'n oedolion a gall carcharorion y cyflawnwyd eu trosedd ar ôl 1 Chwefror 2015 gael eu goruchwyllo ar ôl cael eu rhyddhau am gyfnod o 12 mis o leiaf.

Deddf Tai Cymru 2014

Adran 52 – yn cynnwys dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu strategaeth ddigartrefedd yn cynnwys camau penodol i ddiwallu anghenion y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.

Adran 55 – yn cynnwys ystyr digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd. Sylwer, gan nad yw cell carchar yn cael ei hystyried yn llety sefydlog, mae unrhyw un sy'n cael ei gadw yn y ddalfa sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bygythiad o ddigartrefedd neu ddigartrefedd yn gymwys yn gyfreithiol ar gyfer y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Adran 60 – yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth Awdurdod Lleol yn diwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg benodol o ddigartrefedd. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gadael carchar neu lety cadw ieuencid.

Adran 66 – mae'r ddyletswydd atal yn golygu bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithio gyda phobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.

Mae'r Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn nodi y gall awdurdodau lleol, er mwyn atal digartrefedd ymysg pobl sy'n gadael carchar, ddefnyddio'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel (gweler isod) cyn iddynt gael eu rhyddhau. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio'n rhagweithiol â phartneriaid fel y Gwasanaeth Carchar, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ynghyd â Byrddau Iechyd Lleol, mudiadau'r trydydd sector, Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a landlordiaid preifat i helpu carcharorion i naill ai sicrhau llety ar ôl cael eu rhyddhau neu i'w helpu i ddal eu gafael ar lety sydd ganddynt yn barod.

Angen blaenoriaethol

Mae rhywun sy'n gwneud cais am gymorth tai a digartrefedd yn cael ei gategoreiddio fel un ag angen blaenoriaethol os yw'n 'agored i niwed o ganlyniad i dreulio amser yn y ddalfa'. Bydd gan unigolyn angen blaenoriaethol dan yr adran hon os oes ganddo gysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod lleol ac os yw'n agored i niwed o ganlyniad i:

- i. treulio dedfryd o garchar yn unol ag ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000
- ii. cael ei gadw ar remand neu ei draddodi i'r carchar drwy orchymyn llys, neu
- iii. cael ei gadw ar remand mewn canolfan gadw ieuenctid dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012.

Mae'r Cod Canllawiau¹³ yn amlinellu ffactorau y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth benderfynu a yw unigolyn yn agored i niwed o ganlyniad i amser a dreuliwyd yn y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys ystyried pob ffactor perthnasol, er enghraifft:

- hyd y cyfnod a dreuliwyd yn y carchar neu yn y ddalfa;
- a yw'r unigolyn yn dioddef o effeithiau unrhyw ddigwyddiad trawmatig a ddigwyddodd pan oedd yn y carchar neu yn y ddalfa;
- a yw'r unigolyn yn cael goruchwyliaeth gan asiantaeth cyfiawnder troseddol (e.e., prawf).
- a oes gan yr unigolyn rwydweithiau cefnogi yn barod;
- a yw'r unigolyn wedi cael asesiad ac a yw'n derbyn gofal; ac a yw'r unigolyn yn derbyn gwasanaethau dan Fesur Iechyd Meddwl 2010.

Cysylltiad lleol

Mae'r Cod Canllawiau yn nodi 'nad yw preswyllo mewn carchar ynddo'i hun yn sefydlu cysylltiad lleol ag ardal' ond mae'n egluro hefyd y gallai'r rhai sy'n gadael carchar fod â rhesymau penodol dros ddymuno cael eu hadleoli y tu allan i'r ardal, er enghraifft pellhau eu hunain oddi wrth bobl y maent yn gwybod amdanynt. Gallent hefyd gael eu hatal rhag dychwelyd i'w hardal eu hunain oherwydd telerau eu trwydded.

Bwriadoldeb

Mae'r Cod Canllawiau yn cynnwys cyngor trylwyr ar gyfer asesiad awdurdod lleol i benderfynu a yw unigolyn sy'n gadael cartref yn fwriadol ddigartref ai peidio. Mae'r Canllawiau yn nodi na ddylai'r gweithredoedd a achosodd i'r unigolyn gael ei garcharu gael eu hystyried yn awtomatig fel sail dros ei ystyried yn fwriadol ddigartref. Er hyn, os oedd y drosedd a arweiniodd at y ddedfryd o garchar yn deillio'n uniongyrchol o'r digartrefedd, er enghraifft torri cytundeb tenantiaeth a hynny'n arwain at adfeddu'r eiddo, yna efallai y byddai'n rhesymol ystyried a oedd yr unigolyn hwnnw'n ddigartref yn fwriadol.

Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel

Mae'r Llwybr hwn yn darparu canllawiau i asiantaethau sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer ailsefydlu'r rhai sydd yn y ddalfa, o'r adeg y maent yn cael eu derbyn nes byddant yn cael eu rhyddhau. Mae'n ddull gweithredu ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol,

¹³ Gweler [allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ac Awdurdodau Lleol i bontio'r bwlch rhwng Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 2014 a Deddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg sylfaenol o sut y mae'r Llwybr yn dod yn gysylltiedig â Deddf Tai (Cymru) 2014.¹⁴

Pryd?	Beth?	Pwy?
Derbyn i'r ddalfa	Sgrinio am anghenion llety Cadw llety presennol os yw hynny'n hyfyw	Cwmni Adsefydlu Cymunedol/ Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Prison Link Cymru
Ffenestr adsefydlu 12 wythnos	Cymorth i gadw llety neu i ddod o hyd i lety	Cwmni Adsefydlu Cymunedol
66 diwrnod cyn rhyddhau	Cyfeirio at yr awdurdod lleol am asesiad dan Adran 62 os na chaiff y broblem llety ei datrys. Os oes dyletswydd Adran 66 neu 73, yr awdurdod lleol i gymryd camau rhesymol i helpu	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Awdurdod lleol
Adeg rhyddhau	Parhau â chamau rhesymol dan Adran 66 neu 73 fel y bo'n gymwys ac adolygu'r asesiad fel y bo'n briodol. Os daeth y ddyletswydd Adran 73 i ben cyn rhyddhau, cynnal asesiad pellach dan Adran 62 adeg rhyddhau. Os yw'n gymwys (rheswm i gredu bod yr unigolyn yn ddigartref, yn gymwys i gael help ac ag angen blaenoriaethol) darparu llety interim dan Adran 68.	Awdurdod lleol Awdurdod lleol Awdurdod lleol

Mae'r llwybr hefyd yn nodi y dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid statudol ac anstatudol amrywiol, gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Ailintegreiddio ac Ailsefydlu, Timau Troseddau Ieuencid, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac eraill.

¹⁴ 'Homelessness: The Law in Wales', Adran: Prisoners and homelessness tt.44, gweler <https://www.lawworks.org.uk/sites/default/files/files/An-Intro-to-Homlessness-Housing-%28Wales%29-Act-Part-2-Delegates-notes-Jan2019.pdf>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Adrannau 185-188 o Ran 11 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth mewn carchardai, mangreoedd a gymeradwywyd a llety mechnïaeth, a phlant ag anghenion gofal a chymorth mewn llety cadw ieuenctid.

Mae Adran 187 (3) yn nodi na all carcharor fynegi ei fod yn ffafrio llety penodol tra mae'n cael ei gadw mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu fangre a gymeradwywyd, ond y bydd carcharorion yn gallu mynegi eu bod yn ffafrio llety pan fyddant yn gwneud cynlluniau ar gyfer llety wrth gael eu rhyddhau.

Mae Adran 187 (4) yn nodi na all carcharor gael ei eiddo wedi'i warchod gan yr awdurdod lleol tra bydd mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu fangre a gymeradwywyd.

Mae'r Cod Ymarfer¹⁵ yn croesgyfeirio'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, ac yn datgan bod angen i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r gofynion dan Ddeddf Tai 2014 i helpu'r rhai sy'n dychwelyd i Gymru mewn sefydliadau diogel, sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd, i ddod o hyd i lety addas pan fyddant yn cael eu rhyddhau a chael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ar gyfer y broses ryddhau mor gynnar ag sy'n bosibl.

Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn amlinellu canllawiau ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). MAPPA yng Nghymru a Lloegr yw'r ffordd y mae awdurdodau cyfrifol yn rheoli troseddwy rhyw cofrestredig, troseddwy treisgar a mathau eraill o droseddwy rhyw a throeddwy sy'n achosi risg o niwed i'r cyhoedd. Mae MAPPA yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru, Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi a heddluoedd yng Nghymru. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gydweithredu ac efallai y bydd angen iddynt ymateb i amserlenni a gofynion MAPPA (chwe mis cyn rhyddhau) wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau troseddwr.

MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg) yw'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithredu er mwyn amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n wynebu risg uchel o gael eu niweidio neu eu llofruddio. Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol yn y trefniadau hyn, ac yn aml iawn bydd amodau llym ynghlwm wrth achosion cam-drin domestig, ac mae'n bosibl y bydd angen ystyried yr amodau hyn mewn cynllun gofal a chymorth, yn enwedig mewn cysylltiad a llety a lleoliad ar ôl rhyddhau lle mae cyflawnwr y drosedd yn wynebu cyhuddiad troseddol neu ar fechnïaeth.

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

Mae'r gorchymyn hwn yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdod Lleol ystyried agosrwydd cyflawnwyr troseddau honedig neu ddioddefwyr cam-drin domestig wrth gefnogi ceisydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i Swyddogion Ailsefydlu hefyd ystyried hyn ar gyfer pob un nad yw'n cael ei gyfeirio at Awdurdodau Lleol a sicrhau yr ymgynghorir â gwasanaethau cymorth arbenigol.¹⁶

¹⁵ Gweler [141027pt11annexden.pdf \(llyw.cymru\)](#)

¹⁶ Gweler [27291 Llwybr Digartrefedd i Garcharorion \(llyw.cymru\)](#), tudalen 21

b. Deddfwriaeth berthnasol yn Lloegr

Angen Blaenoriaethol

Yn Lloegr nid oes gan bobl hawl i'r ddyletswydd digartrefedd lawn oni bai fod ganddynt angen blaenoriaethol. Gellid dod i'r casgliad bod gan unigolyn angen blaenoriaethol os ystyrir ei fod yn agored i niwed oherwydd:

- ei fod wedi treulio dedfryd o garchar.
- ei fod wedi cael ei draddodi am ddirmyg llys neu drosedd debyg.
- ei fod wedi cael ei gadw yn y ddalfa.

Nid yw hyn yn golygu y bydd pawb sydd wedi treulio cyfnod yn y carchar yn cael ei ystyried yn agored i niwed, ac o ganlyniad, y bydd ganddynt hawl i'r ddyletswydd dai lawn, gan gynnwys llety interim a chael cynnig llety sefydlog.

Mae'r [Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd](#) yn nodi y byddai awdurdod lleol o bosibl, wrth benderfynu a yw'r unigolyn yn agored i niwed, yn dymuno ystyried:

- hyd y cyfnod a dreuliwyd mewn carchar neu yn y ddalfa.
- a yw'r ceisydd yn cael goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf
- faint o amser sydd wedi mynd hebio ers i'r ceisydd gael ei ryddhau o'r carchar neu'r ddalfa, ac a yw'r ceisydd wedi gallu cael a chadw llety yn ystod y cyfnod hwnnw.
- a oes gan y ceisydd unrhyw rwydweithiau cefnogi yn barod, er enghraifft teulu neu ffrindiau.

Deddf Lleihau Digartrefedd

Ym mis Ebrill 2018 fe wnaeth y Ddeddf Lleihau Digartrefedd ymestyn y cymorth sydd ar gael i bobl nad oes ganddynt angen blaenoriaethol.

Cyflwynodd y Ddeddf hefyd ddyletswydd i gyfeirio at gyrff cyhoeddus penodedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaethau hyn nodi a chyfeirio pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd at awdurdod tai lleol. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i garchardai, sefydliadau troseddwr ifanc, timau troseddwr ifanc a gwasanaethau prawf.

c. Deddfwriaeth a pholisi perthnasol yn yr Alban

Deddf Tai yr Alban 2014

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol cyffredinol sydd gan awdurdod lleol i unrhyw un sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd, mae unigolion sy'n gadael y carchar yn cael eu cydnabod fel grŵp sy'n agored iawn i niwed. Mae Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd 2005 a Chanllawiau Atal Digartrefedd 2009 yn cyfeirio at hyn fel maes penodol sydd angen sylw, gan argymhell datblygu gwybodaeth staff arbenigol am y mater, cydweithio agos a datblygu cyfathrebu rhwng carchardai ac awdurdodau lleol.

Tai Cynaliadwy i Bawb sy'n cael ei Ryddhau

Cyhoeddwyd safonau 'Sustainable Housing on Release for Everyone' (SHORE) ym mis Rhagfyr 2017.¹⁷ Llofnodwyd y rhain gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai. Fodd bynnag, canllawiau i anelu atynt yw'r rhain ar hyn o bryd, ac nid gofynion statudol.

Mae'r safonau'n dilyn y camau y mae unigolion yn eu dilyn drwy'r system gyfiawnder – Wrth gael eu Carcharu, Yn Ystod Dedfryd, Cyn Rhyddhau ac Ar Ôl Rhyddhau. Maent yn darparu set ymarferol a chynhwysfawr o safonau, gan adeiladu ar brofiad cronus helaeth y rhai a gyfrannodd tuag atynt.

Er hyn, y consensws ymysg y prif hysbyswyr ar gyfer Monitor Digartrefedd yr Alban yn 2019 oedd bod y safonau SHORE yn cyflwyno egwyddorion cadarnhaol ond bod ffordd bell i fynd o safbwynt eu gweithredu.¹⁸

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth yr Alban yn cynnal adolygiad o weithrediad safonau SHORE.

Argymhellion y Grŵp Adolygu Atal Digartrefedd

Bu'r Grŵp Adolygu Atal Digartrefedd yn ystyried rôl partneriaid cyfiawnder troseddol wrth geisio dileu ac atal digartrefedd. Cynhyrchodd ei argymhellion terfynol ym mis Chwefror 2021,¹⁹ ac mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddod â deddfwriaeth i'r senedd yn 2023 sy'n bodloni egwyddorion y Grŵp Adolygu.

Argymhellodd y Grŵp y dylai'r **heddlu**:

- Gyfeirio achos at yr awdurdod lleol lle maent yn canfod risg o ddigartrefedd (â chyfrifoldeb cyfatebol ar yr awdurdod i weithredu ar yr atgyfeiriad)
- Holi ynglŷn ag amgylchiadau llety unigolyn os oes lle rhesymol i gredu y gallai rhywun fod yn ddigartref. Gellir nodi amgylchiadau penodol mewn rheoliadau neu ganllawiau priodol, gan gynnwys rhywun yn cysgu allan, achosion o gam-drin domestig neu anghydfod mewn cartref yn arwain at ddigartrefedd posibl.

O ran **carchardai** argymhellodd y Grŵp Adolygu:

- Newidiadau i reolau carchardai, fel bod rhywun yn holi carcharorion ynglŷn â'u sefyllfa o ran llety cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl iddynt fynd i'r carchar, ac achosion yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol a nodwyd gan y carcharor ar gyfer cymorth digartrefedd cyn gynted ag y bo modd.
- Lle nodir problemau llety, dylai carchardai weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau opsiynau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i fynd i'r afael â'r problemau.
- Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaeth ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd yn cael ei ddylunio i ddiwallu anghenion pobl sy'n gadael carchar neu sefydliad cadw ieuencid, ac unrhyw un sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o ganlyniad

¹⁷ Gwasanaeth Carchar yr Alban (2017) *Scottish Quality Standards: Housing Advice, Information and Support for People In and Leaving Prison*. Online: Scottish Prison Service. Gweler <https://www.sps.gov.uk/Corporate/Publications/Publication-5363.aspx>

¹⁸ Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B., Wood, J., Stephens, M. a Blenkinsopp, J. (2019) *The Homelessness Monitor: Scotland 2019*, Llundain: Crisis.

¹⁹ Reid, B. (2021) [Preventing Homelessness in Scotland: Recommendations for legal duties to prevent homelessness: A report from the Prevention Review Group.](#)

i achos llys a gynhelir yn fuan. Dylai'r partneriaid perthnasol gynnwys Gwasanaeth Carchar yr Alban a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban.

O ran y **llysoedd**, argymhellodd y Grŵp:

- Dylai gwasanaethau opsiynau tai lleol weithio gyda'r gwasanaeth llysoedd i sicrhau bod cyngor ynglŷn ag opsiynau tai ar gael yn rhwydd mewn lleoliadau llys.

d. Y Ddeddf Crwydraeth

Er 1824, mae'r Ddeddf Crwydraeth wedi ei gwneud yn drosedd i gysgu allan neu fegera yng Nghymru a Lloegr. Gallai pobl sy'n cysgu allan wynebu camau gan yr heddlu a dirwy o hyd at £1,000. Yn dilyn ymgyrch 'Scrap the Act'²⁰, ym mis Chwefror 2022 ymrwymodd llywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Crwydraeth mewn cyfraith.²¹ Er hyn, mae'r Ddeddf yn dal yn y llyfrau statud ac nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer diddymu, a allai gael ei gyflwyno fel Offeryn Statudol neu fel diwygiad i gyfreithiau sy'n mynd drwy Senedd y DU. Mae gan Lywodraeth y DU hefyd bŵer i ddisodli'r deddf â deddfwriaeth newydd, ac mae wedi ymgynghori ar gynigion y mae sefydliadau ymgyrchu yn ofni y gallent droseddoli digartrefedd ymhellach.²²

3. Cyd-destun polisi yng Nghymru

Cynllun Gweithredu ar Ddileu Digartrefedd

Mae'r mesurau atal wedi'u targedu sydd yng Nghynllun Gweithredu ar Ddileu Digartrefedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu, diwygio neu wella gweithrediad llwybrau â chymorth wedi'u teilwra, ymyriadau priodol ac atebion tai i grwpiau sy'n wynebu risg o niwed, gan gynnwys pobl sy'n gadael y carchar.

Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

Yn ei hadroddiad, *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu bod meysydd datganoledig fel tai, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn hollbwysig er mwyn caniatáu i ddinasyddion Cymru fyw bywydau iach, di-drosedd. Mae'r adroddiad yn cyfeirio'n benodol at y Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuentid a Chyfiawnder Menywod, yn ogystal â gwaith ar y cyd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, lle mae'r Llywodraeth yn teimlo ei bod wedi cael effaith benodol.²³

Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r Llwybr hwn yn darparu canllawiau ar gyfer asiantaethau sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer ailsefydlu'r rhai sydd yn y ddalfa o'r adeg y cânt eu derbyn i'r adeg y cânt eu rhyddhau. Mae'n ddull gweithredu ar y cyd rhwng y Gwasanaeth

²⁰ Gweler <https://www.crisis.org.uk/get-involved/campaign/scrap-the-vagrancy-act/>

²¹ Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/police-crime-sentencing-and-courts-bill-2021-factsheets/repeal-of-the-vagrancy-act-1824-police-crime-sentencing-and-courts-act-2022-factsheet>

²² Gweler <https://www.crisis.org.uk/about-us/the-crisis-blog/is-it-scrapped-yet-an-update-on-our-campaign-to-repeal-the-vagrancy-act/>

²³ Gweler [sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-mai-2022-f2.pdf \(llyw.cymru\)](https://www.crisis.org.uk/about-us/the-crisis-blog/is-it-scrapped-yet-an-update-on-our-campaign-to-repeal-the-vagrancy-act/)

Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ac Awdurdodau Lleol er mwyn pontio'r bwlch rhwng Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 a Deddf Tai Cymru 2014.

Cydlynwyr Llwybrau Llety

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Llywodraeth Cymru wedi dod at ei gilydd i ariannu Cydlynwyr Llwybrau Llety, sy'n cael eu dyrannu i bob Uned Gyflawni Prawf ledled Cymru, gan ddarparu rôl annatod wrth gefnogi Ymarferwyr Prawf lle mae Pobl ar Brawf yn profi problemau llety.

Gwasanaethau Llety Cymunedol

Cyflwynodd Llywodraeth y DU fframwaith Gwasanaethau Llety Cymunedol (CAS) haenog newydd ledled Cymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2022. Roedd hyn yn ychwanegu haen newydd, CAS3, at strwythur llety presennol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar gyfer pobl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a fyddai'n darparu llety pontio am hyd at 12 wythnos i bobl sy'n gadael y carchar ac yn wynebu risg o ddigartrefedd. Mae hyn yn ychwanegu at y llety sy'n cael ei ddarparu'n barod i'r carcharorion â'r risg fwyaf ac i bobl sy'n cael eu rhyddhau ar fechnïaeth neu dan amodau trwydded sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd angenrheidiol.

Mae'r fframwaith CAS3 yn darparu llety dim ond ar gyfer yr 84 diwrnod ar ôl rhyddhau, ac er ei fod yn cael ei groesawu, mae'n gwrthdaro ag uchelgeisiau ailgartrefu cyflym Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cam nesaf o archwilio meini prawf y gwasanaeth gobeithir y gellir gwneud newidiadau sy'n golygu y gellir ymgorffori'r fframwaith yn well mewn dull gweithredu ailgartrefu cyflym.

Glasbrint Cyfiawnder Menywod

Mae'r Glasbrint hwn, sydd hefyd yn cael ei alw yn Lasbrint Troseddau Menywod, yn amlinellu'r uchelgais o gyflymu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau i greu cymdeithas decach, a mwy cyfartal, â gwell canlyniadau a chyfiawnder i bawb. Mae'n ceisio creu atebion cymunedol cynaliadwy i gadw menywod a chymunedau yn ddiogel ac yn rhydd rhag ymddygiad troseddol.

Yr agweddau ar y glasbrint sydd fwyaf perthnasol i ddigartrefedd a thai yw bwriadau i:

- Archwilio opsiynau amrywiol ar gyfer llety diogel a dibynadwy i fenywod yng Nghymru.
- Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar fenywod, gan gynnwys perthnasoedd gwaith ystyrlon â gweithiwr proffesiynol allweddol y gellir ymddiried ynddo, adeiladu cryfderau ac adnabod y trawma neu ddigwyddiadau anffafriol y gallai menywod fod wedi eu profi, deall ac ymdrin â sut y mae hyn yn gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol.
- Ymgorffori llwybrau cyfeirio clir a chynlluniau unigol mewn trefn benodol i fenywod agored i niwed yn y gymuned er mwyn darparu ymyriadau, gan weithwyr proffesiynol medrus, wedi cael hyfforddiant llawn, yn fuan.
- Gweithio gyda gwasanaethau adsefydlu er mwyn darparu ymyriadau effeithiol cyn ac ar ôl rhyddhau mewn carchardai lle mae menywod o Gymru wedi'u lleoli.

Mae'r glasbrint yn disgrifio llwyddiant fel hyn: 'bydd menywod a phlant yn byw mewn cartref diogel ac o ganlyniad byddant yn llai tebygol o droseddu.'

Ym mis Gorffennaf 2021, defnyddiodd y Glasbrint gyllid gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu prosiect ymchwil annibynnol gan y Sefydliad Ymchwil i Gynhwysiant Cymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar y cyd â Llamau, er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o anghenion llety a rhwystrau menywod o Gymru ar wahanol adegau yn y siwrnai cyfiawnder troseddol. Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar arolwg amlasiantaethol, cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol ac adborth gan fenywod â phrofiad personol. Bydd yn sail i'r gwaith o ddyfodol, datblygu a phrofi dull newydd posibl o ddatrys y broblem dai. Nid yw'r adroddiad wedi'i wneud yn gyhoeddus eto, ond mae trafodaethau â phartneriaid allweddol i ystyried y canfyddiadau yn mynd rhagddynt a byddant yn sail i weithredu polisi yn y dyfodol.

Gwasanaethau eraill i fenywod sy'n gadael carchar yng Nghymru

- One Women's Centre yn Eastwood Park â Chanolfan Gymunedol i Fenywod ar y safle. Ymddiriedolaeth Nelson yw'r prif ddarparwr, ac mae gwasanaethau'n cael eu his-gontractio i Cymru Ddiogelach a Pobl. Mae'r ganolfan yn darparu un gwasanaeth cyfannol i bob menyw hyd at 12 mis cyn rhyddhau ac wrth iddynt drosglwyddo i'r gymuned.
- Mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Ddiogelach yng Ngharchar Eastwood Park a Charchar Stygal yn darparu cefnogaeth i fenywod o Gymru sy'n ailsefydlu yng Nghymru. Mae'r cynghorwyr yn derbyn atgyfeiriadau gan reolwyr troseddwy, y Tîm Ailsefydlu, a'r One Women's Centre.
- Prison Link Cymru - De (POBL), yn gweithio gyda menywod o Gymru i gefnogi pob agwedd ar anghenion llety. Ar hyn o bryd mae'r cynnig hwn i bob menyw sy'n cael ei chadw ar remand, ac i fenywod sydd â 12 mis o'u dedfryd ar ôl, ac yna yn y cam 6 mis cyn rhyddhau.
- Prison Link Cymru - Gogledd (Shelter Cymru) yn gweithio gyda menywod o Gymru. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys cymorth o bell yn bennaf.

Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid

Mae'r Glasbrint hwn yn nodi'r uchelgais ar gyfer system sy'n seiliedig ar hawliau, ac yn ystyried trawma, a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru.

Y rhan o'r glasbrint sydd fwyaf perthnasol i ddiartrefedd a thai yw'r adran ailsefydlu a phontio isod.

'Mae ailsefydlu fwyaf effeithiol pan wneir gwaith cydweithredol, amlasiantaethol rhwng asiantaethau sy'n darparu cymorth yn y ddalfa ac yn y gymuned. Byddwn yn ystyried sut gellir:

- Mabwysiadu dull 'Ailsefydlu Adeiladol' i sicrhau bod gwaith gyda phlant yn adeiladol, yn cael ei gyd-greu, ei addasu, yn gyson ac yn gydgyssylltiedig.

- Ehangu ymarfer ailsefydlu i gwmpasu gwaith gyda theuluoedd i baratoi amgylchedd y cartref ar gyfer pan fydd y plentyn yn dychwelyd; gwella ailintgreiddio.
- Cryfhau ymatebion aml-asiantaeth i ailintgreiddio ac ailsefydlu ymhellach.
- Gwella'r trefniadau pontio i wasanaethau cyfiawnder troseddol oedolion, a gwasanaethau eraill i oedolion fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.'

4. Rhwystrau ac atebion

a. Troseddoli digartrefedd

Mae troseddoli digartrefedd, ac yn fwy penodol cysgu allan, drwy'r Ddeddf Crwydraeth (a deddfwriaeth bosibl yn ei lle) yn rhwystr sy'n atal pobl rhag dod â'u digartrefedd i ben. Yn 2023 mae ymatebion Rhyddid Gwybodaeth gan 29 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod swyddogion wedi arestio 1,173 o bobl er 2021 am droseddau dan y Ddeddf Crwydraeth.²⁴

Canfu ymchwil gan Crisis â phobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd fod ymddiriedaeth rhwng yr heddlu a phobl a oedd yn ddigartref wedi'i golli o ganlyniad i gael eu symud ymlaen neu eu dirwyo gan ddefnyddio pwerau yn y Ddeddf Crwydraeth. O ganlyniad i hyn roedd pobl yn gyndyn o ofyn am help pan oeddent yn dioddef trosedd neu o ymwneud â gwasanaethau cymorth y gallai'r heddlu eu cyfeirio atynt.²⁵

b. Casglu data ar gyfiawnder troseddol a digartrefedd

Mae'n debygol bod y prinder data a'r ffaith fod y data sydd ar gael am ddigartrefedd ar gyfer pobl sydd yn y carchar a/neu rai sy'n gadael carchar mor arwynebol yn arwain at amcan rhy isel o wir faint y broblem.

Gallai unigolion ddewis peidio â chyfeirio at adael carchar fel eu rheswm dros ddigartrefedd, oherwydd eu bod yn ofni gwahaniaethu neu'n poeni y gallai hyn wanhau eu cais digartrefedd. Hyd yn oed os nad yw rhywun sy'n gadael carchar yn ddigartref pan mae'n cael ei ryddhau, gallai trefniadau byw chwalu ymhen ychydig wythnosau ar ôl iddo gael ei ryddhau, gan arwain at ddigartrefedd gohiriedig. Ar ben hyn, ni fydd pawb sy'n ddigartref yn mynd at awdurdod lleol neu'n cael cynnig asesiad digartrefedd. Yn ogystal, nid yw ystadegau'n dweud wrthym faint o bobl aeth yn ddigartref yn ystod a/neu oherwydd eu cyfnod yn y carchar, nac ychwaith pa mor aml y gellid bod wedi osgoi'r canlyniad hwnnw.

Yn 2019 argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y dylid casglu a chyhoeddi data sy'n benodol i Gymru ar ddigon o raddfa i alluogi datgrynhoi, er mwyn datblygu polisi priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac fel sail i ymchwil.

²⁴Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/biometrics-and-surveillance-camera-commissioner-foi-responses-2023/bscc-foi-0423-th-police-force-compliance-visits#annex-b--reports-letters-sent-to-forces-following-compliance-visits>

²⁵ Gweler https://www.crisis.org.uk/media/240604/cr0220_vagrancyact_report_aw_web.pdf

c. Pwerau datganoledig a phwerau a gadwyd yn ôl

Er bod yr adroddiad Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio gyda chyrff heb eu datganoli er mwyn sicrhau system gyfiawnder ddirwystr ledled Cymru, mae adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd gan y Senedd yn ddiweddar wedi canfod bod pryderon wedi'u codi nad yw cyrff datganoledig a rhai a gadwyd yn ôl yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau cyfiawnder yng Nghymru.²⁶ Mae'r adroddiad yn argymhell bod angen i Lywodraeth Cymru sefydlu 'arweinyddiaeth glir ac atebol' ar gyfiawnder drwy roi goruchwyliaeth dros yr holl faterion cyfiawnder yng ngofal un Gweinidog neu Ddirprwy Weinidog. Roedd hefyd yn dweud bod angen i'r Senedd fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o graffu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

Yn 2019 cyhoeddodd y comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru adolygiad o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru.²⁷ Roedd tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Comisiwn yn awgrymu bod y cynllun datganoli presennol wedi achosi problemau o ran darparu gwasanaethau iechyd i garcharorion, a darparu tai sydd eu hangen ar gyfer adsefydlu ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

d. Cymorth tai a chynllunio yn y carchar

Roedd ein sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn pwysleisio, tra mae unigolyn yn y carchar, y dylid rhoi gwell cefnogaeth iddo ddeall ei hawliau a chael mynediad at y cymorth y mae arno ei angen. Mae angen defnydd mwy cyson o brosesau cynllunio cynnar ac asesiadau o anghenion er mwyn sicrhau bod llety wedi'i sicrhau ar gyfer yr adeg rhyddhau.

Canfu gwerthusiad o'r Llwybr oedolion yn 2018 gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Salford²⁸ broblemau yn ymwneud â chyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai timau tai awdurdodau lleol symud y tu hwnt i ddull gweithdrefnol a gweinyddol ac ymgysylltu'n fwy pendant â'r rhai sy'n gadael y carchar i'w helpu i sicrhau llety. Er hyn, canfu awdurdodau lleol a oedd yn ceisio gweithio mewn ffordd ataliol cyn i unigolyn gael eu ryddhau eu bod yn aml iawn yn methu â chael gafael ar yr wybodaeth angenrheidiol.

Dywedodd rhanddeiliaid mewn carchardai fod gweithgarwch i atal digartrefedd fel arfer ar ffurf helpu carcharorion newydd i wneud cais am fudd-dal tai neu ddod â thenantiaethau i ben os oeddent yn mynd i fod yn y ddalfa am fwy o amser nag y gellid talu'r budd-dal. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys llawer o gyfeiriadau at staff carchar yn ymgysylltu drwy ddulliau ataliol mwy amrywiol, er enghraifft cyfryngu ag awdurdodau lleol, teuluoedd, landlordiaid preifat neu staff hosteli ynglŷn â chadw tenantiaethau neu sicrhau taliadau yn ôl disgrisiwn lle gallai diffyg godi mewn budd-dal tai.

²⁶ Ymchwil y Senedd (2021) *Cyfiawnder yng Nghymru: Goruchwyllo ac atebolrwydd*

²⁷ Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*

²⁸ Madoc-Jones, I., Hughes, C., Dubberley, S., Gorden, C., Washington-Dyer, K., Wilson, F., Ahmed, A., Lockwood, K., Wilding, M (2018) *Evaluation of homelessness services to adults in the secure estate*

e. Anaddasrwydd llety dros dro

Dangosodd ein sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid fod llawer o'r rhai sy'n gadael carchar yn symud i lety dros dro nad yw'n fuddiol o safbwynt adsefydlu. Gall natur anhrefnus rhai lletyau dros dro wneud problemau a oedd yn bodoli cynt yn waeth a chreu rhai newydd, er enghraifft os yw pobl sydd â dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau yn byw gyda phobl sy'n adfer neu nad oes ganddynt ddibyniaeth.

f. Mynediad at gymorth

Cysylltiad lleol

Gall cysylltiad lleol fod yn rhwystr i unigolion sy'n gadael carchar ac yn ceisio cael cymorth tai. Mae llawer o'r rhai sy'n gadael carchar yn dymuno symud i ardal newydd er mwyn torri cysylltiadau â'r ardal lle cyflawnwyd trosedd.

Er bod y Cod Canllawiau yn cynghori y dylid bod yn hyblyg wrth ddefnyddio'r prawf cysylltiad lleol ar gyfer y rhai sy'n gadael carchar, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi awgrymu ei fod yn parhau'n rhwystr.

Natur Agored i Niwed

Mae gwerthusiad o'r Llwybr oedolion a gynhaliwyd yn 2018²⁹ yn nodi bod awdurdodau lleol yn teimlo bod gwneud penderfyniadau yn ymwneud â natur agored i niwed yn broblemus. Mae asesiadau yn aml yn gwneud cysylltiadau rhwng treulio dedfryd hir, sefydliadu a bod yn agored i niwed yn dilyn hynny, er bod llawer o'r ymatebwyr a oedd yn gadael carchar a gyfwelwyd yn treulio dedfrydau byrrach ac yn cyflwyno'u hunain i ymchwilwyr fel rhai wedi'u sefydliadu ac yn gorfforol fregus, ag ansefydlogrwydd meddyliol neu'n ddibynnol ar sylweddau.

Ychydig iawn o'r carcharorion hyn awgrymodd eu bod wedi cael statws angen blaenoriaethol. Roedd rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol yn awgrymu bod dynodi rhywun fel person 'agored i niwed' yn dibynnu'n bennaf ar y gallu i ddarparu tystiolaeth feddygol ysgrifenedig o salwch corfforol neu feddyliol. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod rhan 7 o'r Llwybr Cenedlaethol yn nodi y disgwylir y bydd sylw'n cael ei roi i anghenion iechyd meddyliol a chorfforol heb eu diagnosis yn ogystal â'r rhai sydd wedi eu diagnosis wrth ystyried gwasanaethau ar ôl rhyddhau. Er hyn, disgrifiodd awdurdodau lleol hefyd anawsterau wrth geisio cael yr wybodaeth briodol i wneud penderfyniad yn ymwneud â bod yn agored i niwed.

g. Cael tenantiaethau a'u cadw

Mae Adroddiad Sicrhau Cyfiawnder i Gymru Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r 'llu o heriau'³⁰ y mae rhai pobl yn eu hwynebu pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r carchar, gan gynnwys y gallu i fodloni gofynion landlord. Gallai'r rhain gynnwys diffyg geirdaon, cyfriflenni banc, dogfennaeth adnabod, neu filiau, blaendal a rhent ymlaen llaw.

²⁹ Madoc-Jones, I., Hughes, C., Dubberley, S., Gorden, C., Washington-Dyer, K., Wilson, F., Ahmed, A., Lockwood, K., Wilding, M (2018) *Evaluation of homelessness services to adults in the secure estate*

³⁰ Llywodraeth Cymru (2022) *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, t.92

Gall cael mynediad i'r sector rhentu preifat fod yn anodd, oherwydd mae'n bosibl na fydd landlordiaid yn fodlon gosod eu heiddo i bobl sydd ag euogfarnau troseddol blaenorol a/neu'r rhai hynny sy'n dioddef o gyflyrau meddygol neu gamddefnyddio sylweddau neu alcohol.

Efallai hefyd y bydd ar bobl hŷn sy'n gadael carchar angen cymorth penodol ac ychwanegol i ddod o hyd i lety pan fyddant yn cael eu rhyddhau, yn enwedig os oes ganddynt anghenion iechyd a gofal sy'n galw am addasiadau penodol i eiddo. Mae'r heriau hyn yn gyson â'r hyn y cyfeiriodd pobl sy'n gweithio ar draws y sectorau tai a chyfiawnder troseddol atynt drwy ddigwyddiadau ymgysylltu Crisis yn ddiweddar.

Roedd y rhwystrau eraill a oedd yn atal mynediad at denantiaeth y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys polisïau dyrannu a pholisïau yswiriant landlordiaid (er enghraifft, polisïau yswiriant nad ydynt yn gymwys lle mae tenantiaid wedi'u canfod yn euog o losgi bwriadol), diffyg gwarantwr a hanes o ôl-ddyledion rhent. Nodwyd hefyd y gallai pobl sy'n gadael carchar gael anhawster penodol i gadw tenantiaeth.

h. Rhwystrau i grwpiau penodol

Menywod

Nid oes carchardai menywod yng Nghymru ac mae menywod o Gymru yn aml iawn yn cael eu hanfon i Garchar Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw. Dadleuir bod y trefniant hwn yn achosi mwy o straen a thrawma gan fod menywod yn gorfod gadael eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cefnogi.³¹ Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael carchar yng Nghymru. Yn hytrach mae'n cefnogi dewisiadau eraill yn lle dedfrydau o garchar, er enghraifft llety i fenywod sy'n agored i niwed.³²

Yn 2018 cyhoeddwyd ymchwil yn edrych ar effaith Deddf Tai (Cymru) 2014 ar fenywod a oedd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.³³ Roedd yn seiliedig ar gyfweiliadau â 32 o randdeiliaid, gan gynnwys menywod yn y carchar sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda hwy, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf.

Mae'r adroddiad yn dadlau bod angen rhoi ystyriaeth benodol i'r grŵp hwn a allai fod yn wynebu mwy o risg o brofi digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. O'r cyfweiliadau a gynhaliwyd â menywod â phrofiad o garchar awgrymwyd bod dileu angen blaenoriaethol ymysg y rhai sy'n gadael carchar o bosibl yn cynyddu'r risg y bydd menywod yn canfod eu hunain yn ddigartref ar y stryd, yn gweithio yn y diwydiant rhyw, yn aildroseddu ac yn byw mewn amgylchiadau byw gwael. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod y gallai rhai o'r rhwystrau y tynnwyd sylw atynt yn yr ymchwil hwn y mae menywod yn eu hwynebu wrth adael y system cyfiawnder troseddol hefyd fod yn effeithio ar ddynion mewn sefyllfaoedd

³¹ Gweler [Rhagor o gyllid ar gyfer prosiect sy'n helpu menywod yn y carchar i gadw mewn cysylltiad â'u plant | LLYW.CYMRU](#)

³² Gweler [Rhagor o gyllid ar gyfer prosiect sy'n helpu menywod yn y carchar i gadw mewn cysylltiad â'u plant | LLYW.CYMRU](#)

³³ Moore, A. The Griffin Society (2018) *Exploring the impact of the Housing (Wales) Act 2014 on women involved in the criminal justice system.*

tebyg. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod materion cymorth mewn sefyllfa anodd a chapasiti yn chwarae rhan ym methiant awdurdodau lleol i weithredu nodau ataliol Deddf Tai (Cymru) 2014 yn llawn.

Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys:

- Cyfarfodydd amlasiantaeth neu alwadau cynhadledd rheolaidd rhwng tai a phrawf i drafod atgyfeiriadau, asesiadau a chynlluniau cyn rhyddhau ar gyfer menywod sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Dylid dilyn hyn â chyfarfodydd neu gynadleddau fideo rheolaidd â menywod yn y carchar i drafod y camau nesaf ac opsiynau (ar gyfer menywod sy'n cael eu hasesu fel angen blaenoriaethol a menywod nad oes ganddynt angen blaenoriaethol ac eto sy'n wynebu risg o ddigartrefedd)
- Hyfforddiant rheolaidd i landlordiaid yn y sector rhentu preifat ar faterion fel camdrin domestig, problemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau. Yn bwysig iawn, dylai awdurdodau lleol gyfuno hyn â mesurau ymarferol yn ymwneud â sut y gellir cefnogi landlordiaid y sector rhentu preifat os ydynt yn derbyn tenantiaid sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.
- Cefnogaeth a chynghor wedi'i dargedu i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn ymwneud â sut y gallant gael mynediad i'r sector rhentu preifat.
- Dylid cynnal cyfarfodydd â menywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol mewn ystafelloedd preifat, nid mewn swyddfeydd cynllun agored.

Pobl ifanc

Cafodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol De Cymru, mewn partneriaeth â Shelter Cymru, eu comisiynu i werthuso'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant a Phobl Ifanc mewn Sefydliadau Diogel.³⁴

Ychydig o'r bobl ifanc a oedd yn cael eu rhyddhau yng Nghymru oedd â phroblemau llety, ond canfu'r adroddiad fod rhai ohonynt yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ynglŷn â'u llety, ac roedd nifer fach nad oeddent yn gwybod ble y gallent fyw pan fyddent yn cael eu rhyddhau. Mae'r argymhellion yn dilyn yr ymchwil hwn yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o'r Llwybr, gan gynnwys egluro cyfrifoldebau sefydliadau mewn cysylltiad â llety i bobl ifanc, a sicrhau bod mwy o lety â chymorth ar gael er mwyn rhoi cymorth arbenigol i bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth.

Pobl sydd ar remand

Mae pobl sy'n cael eu cadw ar remand yn wynebu risg uchel iawn o fod yn ddigartref.³⁵ Gall remandio unigolyn i'r ddalfa achosi cryn dipyn o darfu ac ansicrwydd ynglŷn â llety, hyd yn oed os yw rhywun yn cael ei ganfod yn ddieuog yn nes ymlaen. Yn enwedig â thenantiaeth sector preifat, mae risg y gallai unigolyn gael ei roi dan bwysau i ildio'r denantiaeth, hyd yn oed os yw wedi pledio'n ddieuog a'i fod yn gobeithio dychwelyd i'w gartref. Os oedd rhywun yn hawlio Credyd Cynhwysol cyn mynd i'r ddalfa gall ddal i gael cymorth â chostau tai am hyd at chwe mis, ar yr amod bod disgwyl i'r cyfnod yn y ddalfa fod yn chwe mis neu lai, gan gynnwys amser ar remand.

³⁴ Harriet Pierpoint a Jenny Hoolachan, (2019) *Evaluation of homelessness services to young people in the secure estate*

³⁵ Loucks N (2007) *Housing needs of offenders and ex-offenders, Glasgow: The Robertson Trust.*

i. Ymyriadau Cyfnod Allweddol

Mae Ymyriad Cyfnod Allweddol yn ymyriad cefnogi â therfynau amser sy'n helpu pobl sy'n profi amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored i niwed yn ystod cyfnod o newid yn eu bywydau. Mae Ymyriadau Cyfnod Allweddol wedi'u mabwysiadu gan lawer yn UDA, ac mewn cyd-destunau amrywiol yn Ewrop ar gyfer rhai sy'n gadael y carchar. Yn Nenmarc mae'r gyfradd lwyddiant ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd 'wedi cael eu cartrefu ac sy'n cynnal llety' yn 95%.

Mae Ymyriadau Cyfnod Allweddol yn ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dai ac sy'n darparu mynediad cyflym at dai. Mae hefyd yn cynnwys dull dwys o reoli achosion er mwyn rhoi sylw i anghenion penodol pobl ar ôl iddynt sicrhau llety.

Mae'r model Ymyriadau Cyfnod Allweddol yn seiliedig ar symud drwy gamau clir, â therfynau amser, sydd wedi'u cytuno ac sy'n briodol i'r rhaglen gefnogi. Bydd rheolwr achosion yn dechrau adeiladu perthynas tra mae'r unigolyn yn dal yn y sefydliad, er enghraifft carchar. Ar yr adeg y bydd yr unigolyn yn trosglwyddo i'r gymuned mae tri cham penodol i'w dilyn:

Pontio

Dyma'r cam cefnogi mwyaf dwys. Mae rheolwr yr achos yn sicrhau bod agweddau ymarferol y symud i lety yn mynd rhagddynt yn ddirwystr, gan gynnwys trefnu cyfleustodau, biliau, a chefnogaeth i ddodrefnu eiddo. Yn aml iawn mae cefnogaeth emosiynol yn bwysig hefyd, cymhwyso technegau seicolegol i helpu rhywun i gadw cymhelliant, ac i beidio â chael ei ynysu. Yn aml iawn bydd rheolwr yr achos hefyd yn gweithredu fel trafodwr neu gyfryngwr â chymdogion, neu â landlord, gan helpu i oresgyn unrhyw wrthdaro yn ystod y broses drosglwyddo.

Rhoi cynnig

Yn y cam hwn, mae rheolwr yr achos yn gweithio'n llai dwys ag unigolion, ond mae'n dal 'ar alwad' i gamu yn ôl i mewn pe bai argyfwng yn codi. Gallai'r cam hwn ddal i gynnwys ymweliadau dyddiol, ond gallai fod yn llai dwys, ac yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu i reolwr yr achos asesu sut mae'r unigolyn yn setlo yn ei lety a'i gymuned leol. Rhoddir sylw gofalus i'w helpu i gael gafael ar wasanaethau cymorth prif ffrwd, fel triniaeth cyffuriau ac alcohol ac apwyntiadau iechyd rheolaidd.

Trosglwyddo

Y cam olaf yw trosglwyddo gofal i'r systemau cefnogi a grëwyd. Yn ystod y cam hwn bydd set benodol o weithgareddau i atgyfnerthu'r system gefnogi sydd wedi'i sefydlu. Dylid cael cyfarfod terfynol â'r holl bartion er mwyn gallu pwysu a mesur pethau a sicrhau bod diwedd wedi'i gynllunio i'r berthynas cleient-gweithiwr.

Ar hyn o bryd mae gan elusen Crisis ddwy raglen Ymyriadau Cyfnod Allweddol â throeddwyd sy'n gadael carchar yn Lerpwl ac Abertawe. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan o gynllun peilot hap-dreial rheoli Ymyriadau Cyfnod Allweddol i atal digartrefedd a gwella iechyd unigolion sy'n gadael carchar ac yn cael eu rhyddhau i ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe a Lerpwl ac sydd â chysylltiad lleol yno. Mae'r cynllun peilot yn cael ei gydlynu gan

y Ganolfan Treialon Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, uned dreialon wedi'i chofrestru gan Cydweithrediad Ymchwil Clinigol y DU (UKCRC). Mae'n ddyddiau cynnar o hyd a bydd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth yn dechrau yn ystod yr wythnosau nesaf.

6. Dulliau gweithredu mewn gwledydd eraill

Cysylltu iechyd a chyfiawnder troseddol er mwyn atal digartrefedd

Mae'r Queen's Nurses Institute wedi cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer nyrsys cymunedol sy'n dangos sut i helpu pobl sy'n ddigartref ac mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae tystiolaeth i ddangos bod pobl sy'n profi digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar yn dod yn 'garcharorion drwsau troi', gan eu bod yn gweld bod ganddynt well diogelwch a sefydlogrwydd yn y ddalfa felly byddant yn cyflawni troseddau lefel isel.³⁶ Yn aml iawn mae pobl sydd mewn cylch o ddigartrefedd a charchar yn cael mynediad at ofal iechyd dim ond pan fyddant yn y ddalfa. Golyga hyn fod yr amser a dreulir yn y ddalfa yn aml yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion gofal iechyd aciwt a chronig. Mae gwasanaethau peilot yn cael eu datblygu ledled Lloegr er mwyn cynnig Gwellia Mynediad at Therapiau Seicolegol fel Dewis arall yn lle'r Ddalfa. Ym mis Chwefror 2010 dangosodd archwiliad lleol yn Swydd Gaerloyw fod 56% o'r boblogaeth wrywaidd sy'n defnyddio'r Tîm Gofal Iechyd Digartrefedd, yn garcharorion drws troi, tymor byr, rhai â chynifer â 4-5 dedfryd y flwyddyn. Yn genedlaethol, mae arolwg a gynhaliwyd gan St Mungo's yn 2010, yn dangos bod 48% o'r cleientiaid yn gyn-droseddwr neu wedi bod yn y carchar.³⁷

Fel y cyfeirir ato fel ymarfer da yn y canllawiau, mae rhai carchardai yn Lloegr yn ceisio cynnal clinig cyn rhyddhau lle bydd staff Gofal Iechyd yn mynd i glinigau unwaith yr wythnos neu unwaith bob pythefnos i droseddwr a fydd yn cael eu rhyddhau yn y 6 wythnos dilynol. Bydd y staff yn sicrhau bod unrhyw apwyntiadau dilynol yn cael eu gwneud ac yn cael eu rhoi i'r troseddwr. Byddant yn trefnu meddyg teulu os bydd angen neu'n rhoi enwau a chyfeiriadau meddygon teulu lleol i'r troseddwr er mwyn iddo allu cofrestru pan fydd yn cael ei ryddhau, neu byddant yn ei gyfeirio at y Timau Gofal Iechyd Digartrefedd lle maent ar gael.

Cefnogi pobl ag anfanteision difrifol neu niferus

Canfu ymchwil Hard Edges Scotland dystiolaeth bod tua 5,700 o bobl yn yr Alban yn profi cyfuniad o droseddu, camddefnyddio sylweddau a digartrefedd mewn blwyddyn benodol, tra mae 28,800 arall yn profi cyfuniad o ddwy o'r anfanteision hyn.³⁸ Roedd y 'maes' troseddu yn cynnwys y nifer lleiaf o bobl, ond hefyd y gyfran fwyaf o achosion â ffurfiau sy'n 'gorgyffwrdd' o Anfanteision Difrifol a Niferus ar hyn o bryd, sy'n dangos bod pobl â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol yn debygol o wynebu nifer o heriau, ac mai dim ond un ohonynt yw digartrefedd. Er enghraifft, mewn astudiaeth o wasanaethau cefnogi pontio i garcharorion yn yr Alban, nodwyd tai fel un o'r prif heriau a wynebid gan y rhai â phroblemau cyffuriau ar adeg eu rhyddhau, ac roedd diffyg cartref sefydlog hefyd yn ei

³⁶ Interventions Alliance (2021) *Breaking the cycle of homelessness and reoffending*.

³⁷ Queen's Nurses Institute (2016) *Homelessness and the Criminal Justice System*

³⁸ Bramley et al. (2019) *Hard Edges Scotland: New conversations about severe and multiple disadvantage*

gwneud yn fwy tebygol y byddent yn aildechrau camddefnyddio cyffuriau.³⁹ Mae'r rhai sydd ag anghenion cymhleth yn wynebu risg ddifrifol o syrthio drwy'r craciau mewn darpariaeth gwasanaeth prif ffrwd, gan gynnwys cael mynediad at opsiynau tai/gwasanaethau digartrefedd normal.⁴⁰ Gwelwyd bod Gweithwyr Cymdeithasol Cyfiawnder Troseddol yn yr Alban yn chwarae rôl gadarnhaol, gan gynnig cefnogaeth 'ludiog' bendant, cyfannol, wedi'i theilwra, sy'n fodel priodol iawn i bobl sydd ag anghenion cymhleth.⁴¹

Gwahanol ddulliau o ymdrin â thai cymdeithasol ar ôl rhyddhau o'r carchar

Dull gweithredu Canada

Yng Nghanada, mae arferion tai â chymorth yn seiliedig ar ddau fath o gymorth:

- **Cyfleusterau Preswyl Cymunedol**,⁴² y cyfeirir atynt weithiau fel 'tai hanner ffordd', yn cael eu rheoli gan Wasanaeth Cywirol Canada neu wasanaeth anllywodraethol.
- **Canolfannau Cywirol Cymunedol**⁴³ - cyfleusterau diogelwch sylfaenol yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan Wasanaeth Cywirol Canada.

Mae Cyfleusterau Preswyl Cymunedol yn darparu llety preswyl cymunedol i droseddwr sy'n treulio rhan o'u dedfryd drwy oruchwyliaeth gymunedol, tra mae Canolfannau Cywirol Cymunedol yn darparu ar gyfer troseddwr ar fathau gwahanol o drefniadau rhyddhau, yn ogystal â throseddwr ar barôl llawn a rhai gorchmynion goruchwyllo hirdymor ag amodau preswyllo.

Yng Nghanada hefyd mae menter Strategaeth Dai Genedlaethol⁴⁴ â'r nod o ddatblygu atebion o'r radd flaenaf i broblemau tai cymhleth. Mae'r fenter wedi canfod y canlynol yng Nghanada:

- Mae hyd at 30% o'r unigolion sydd wedi'u carcharu yng Nghanada heb gartref i fynd iddo pan gânt eu rhyddhau.
- Mae prinder gwelyau lloches ac adnoddau prin yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd i gyn-garcharorion sydd newydd gael eu rhyddhau.
- Mae tîm o eiriolwyr, arbenigwyr a chyn-garcharor â phrofiad personol yn gweithio er mwyn newid y llwybr i unigolion eraill sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Un o'r atebion polisi sy'n cael ei ystyried gan y fenter a'i phartneriaid ar hyn o bryd yw adeiladu cartrefi bach iawn, â charcharorion a chyn-garcharorion yn ymwneud â'r broses adeiladu. Mae atebion eraill yn cynnwys trosi cynwysyddion llogau yn dai a newid pwrpas adeiladau segur. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn y prosiect wedi cytuno â'r dull 'Tai yn Gyntaf', sy'n sail i strategaeth ddigartrefedd y llywodraeth ffederal.

³⁹ MacRae R, McIvor G, Malloch M et al (2006) *Evaluation of the Scottish prison service transitional care initiative*, Caeredin: Scottish Executive Social Research

⁴⁰ E.e., McDonagh, T (2011) *Tackling Homelessness and Exclusion: Understanding Complex Lives*, Caerefrog: Joseph Rowntree Foundation

⁴¹ Gweler Bramley et al. (2019)

⁴² Gweler [Community-based residential facilities \(CBRFs\) \(csc-scc.gc.ca\)](https://www.csc-scc.gc.ca/community-based-residential-facilities-cbrfs)

⁴³ Gweler [Facilities and security \(csc-scc.gc.ca\)](https://www.csc-scc.gc.ca/facilities-and-security)

⁴⁴ Gweler [From Prison to Homelessness: Ending a Perilous Trajectory \(placetocallhome.ca\)](https://www.placetocallhome.ca/from-prison-to-homelessness-ending-a-perilous-trajectory)

Yr Almaen, yr Iseldiroedd a Sgandinafia

Mae'r Almaen, yr Iseldiroedd a Sgandinafia wedi mabwysiadu polisi 'Normaleiddio' lle dylai amodau carchar fod yn debyg i sefyllfaoedd byw cyffredin.⁴⁵

Caniateir egwyl cartref tymor byr neu estynedig i ymweld â theulu neu chwilio am waith a llety yn rheolaidd. Mae cyfran y carcharorion sy'n methu â dychwelyd i'r carchar ar ôl yr egwyl o gwmpas un y cant.⁴⁶ Yn yr Almaen mae gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ac i gyn-garcharorion ym mhob dinas fawr bron, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rhedeg gan gyrff anllywodraethol, a thelir amdanynt gan y rhanbarth dinesig. Weithiau maent yn rhan o'r gwasanaethau i bobl ddigartref, ond yn aml iawn maent yn gweithredu ar wahân iddynt.⁴⁷ Yn y DU, mae'n debyg bod tua 60% o'r carcharorion sy'n cael eu rhyddhau yn aildroseddu cyn pen cyfnod o ddwy flynedd. Ond yn Norwy dim ond 20% yw'r gyfradd aildroseddu ar ôl dwy flynedd. Yn rhannol o ganlyniad i hynny, mae gan Norwy bron i dair gwaith yn llai o garcharorion na'r DU, â charchardai yn gweithredu ar gapasiti o 73%, o'i gymharu â 104% yng Nghymru a Lloegr.⁴⁸

8. Cwestiynau i arwain trafodaeth

Deddfwriaeth dai greiddiol

- Beth y gellir ei wneud i gryfhau dulliau atal digartrefedd cyn rhyddhau? e.e., dyletswydd i gynnal asesiadau tai hyn a hyn o amser cyn rhyddhau.
- Mae'r panel o blaid argymhell bod y ddyletswydd atal yn cael ei hymestyn o 56 diwrnod i chwe mis. A oes unrhyw ystyriaethau penodol sydd eu hangen ar gyfer pobl yn y carchar sy'n wynebu risg o ddigartrefedd?
- A oes unrhyw newidiadau sydd eu hangen i ganllawiau yn ymwneud â chysylltiad lleol er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio fel y dylai ar gyfer rhai sy'n gadael y carchar?
- A yw'r Llwybr Cenedlaethol presennol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel yn effeithiol o ran ei nodau? A yw'n dal yn addas i'r diben?

Dyletswyddau ehangach

- Dan y 'ddyletswydd i gyfeirio' sy'n bodoli ar hyn o bryd, rhaid i garchardai a gwasanaethau prawf gyfeirio unigolyn sydd mewn carchar neu ar brawf at awdurdod lleol os yw'n ddigartref neu'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd. Yn ôl adborth gan randdeiliaid nid yw hyn yn gweithio fel y dylai – a ellid diwygio neu gryfhau'r ddyletswydd hon?

⁴⁵ Riep, A. (2019) *The Effects of Culture and Punishment Philosophies on Recidivism: Comparing Prison Systems in the United States and Scandinavia*

⁴⁶ Willis, M. (2020) *Supported housing for prisoners returning to the community: A review of the literature.*

⁴⁷ Busch-Geertsema, V. a Fitzpatrick, S. (2008) *Effective Homelessness Prevention? Explaining Reductions in Homelessness in Germany and England*

- A ddylid ystyried rôl yr heddlu yng nghyswllt atal, er enghraifft dilyn argymhellion Grŵp Adolygu Atal yr Alban y dylai'r heddlu gyfeirio achosion at sylw awdurdodau lleol os oes risg o ddigartrefedd?
- A ddylid cael disgwyliad amlasiantaethol i gydweithredu a rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau pontio dirwysr i bobl sy'n gadael y carchar? Sut fyddai hyn yn edrych? A oes angen ystyriaethau penodol ar gyfer menywod sy'n gadael y carchar a phobl ifanc o fewn hyn?
- Sut y gellir gwella mynediad i'r sector rhentu preifat er mwyn helpu pobl sy'n gadael y carchar i gael cartref preifat ar rent ar ôl iddynt gael eu rhyddhau?
- Sut y gellir cryfhau polisiâu dyrannu Landlordiaid Cymdeithasol fel bod pobl sy'n gadael y carchar yn gallu cael mynediad at dai cymdeithasol?
- Argymhellodd Grŵp Adolygu Atal yr Alban y *“Dylai gwasanaethau Opsiynau Tai weithio gyda'r gwasanaeth Llysoedd er mwyn sicrhau bod cyngor am opsiynau tai ar gael yn rhwydd mewn lleoliadau llys.”* A ddylai'r Panel ystyried argymhelliad tebyg ar gyfer Cymru?